**RHEOLWR DIGWYDDIADAU**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

Teulu: Profiad
Yn gyfrifol am: Amherthnasol
Yn adrodd i: Uwch Reolwr Profiad

## Pwrpas y Swydd

Mae'r Rheolwr Digwyddiadau yn gyfrifol am arwain datblygiad Theatr Clwyd fel lleoliad cynadleddau, priodasau a digwyddiadau y mae galw mawr amdano.

## Cyfrifoldebau allweddol

### Digwyddiadau

- Lansio ein hadeilad sydd wedi'i drawsnewid o'r newydd, gan sicrhau'r buddion gorau posibl o'n cyfleusterau gwell a thynnu sylw marchnadoedd newydd a phresennol at y theatr.
- Sbarduno cynhyrchu incwm drwy wneud y defnydd gorau posibl o'r gofod, rhagoriaeth weithredol a gwasanaethau cwsmeriaid eithriadol.
- Rheoli'r gofod ar gyfer defnydd mewnol ac allanol ar gyfer digwyddiadau, datblygu prosesau a gweithdrefnau archebu effeithlon ar gyfer y ddau, rheoli calendrau a dyddiaduron, gan gydbwyso'r anghenion amrywiol am y gofod yn ofalus.
- Meithrin partneriaethau gydag asiantaethau archebu.
- Adeiladu proffil yn lleol ac o fewn y rhanbarth ehangach.
- Sicrhau bod yr holl gyfleoedd llogi lleoliad yn cael eu hadolygu a'u hasesu, ochr yn ochr â gweithgarwch wedi'i raglennu, i sicrhau'r potensial incwm gorau posibl drwy logi lleoliad ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau eraill sy'n cynhyrchu incwm lle bo modd, heb wrthdaro â gweithgareddau eraill.
- Gweithio'n agos gyda thîm Bryn Williams yn Theatr Clwyd.
- Rheoli a monitro cyllidebau dirprwyedig, gan baratoi ffigurau a dadansoddiad fel sy'n briodol. Cynhyrchu anfonebau ac amserlenni manwl gywir ar gyfer pob digwyddiad, gan sicrhau bod pob archeb yn cael ei chadarnhau gyda'r ddogfennaeth gywir a gweithdrefnau anfonebu prydlon a bod y cleientiaid a'r cyflenwyr yn cytuno ar y telerau a'r amodau llogi.
- Dadansoddi gweithgarwch gwerthu a DPA'ion fel sail i benderfyniadau busnes.
- Gweithio gyda'r tîm marchnata i sicrhau ein bod yn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo
- Gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Datblygu i gynllunio a chyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer noddwyr, aelodau corfforaethol, a chefnogwyr eraill.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill ar gais yr Uwch Reolwr Profiad.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

• Profiad sylweddol yn y diwydiant digwyddiadau, yn ddelfrydol fel cynllunydd neu reolwr digwyddiadau - ystyrir profiad llawrydd hefyd.
• Profiad o reoli a gwerthu gofod i'w logi'n gorfforaethol neu breifat a digwyddiadau.
• Rheoli cyllideb / rheolaeth ariannol.
• Canlyniadau clir wrth gynllunio neu arwain digwyddiadau llwyddiannus a phroffidiol.
• Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu eithriadol – 'person pobl' go iawn sy'n hapus i siarad ag unrhyw un a phawb.
• Gwych am gwblhau sawl tasg ar yr un pryd gyda phrofiad o jyglo nifer o brosiectau a therfynau amser.
• Brwdfrydedd clir dros theatr fyw ac adloniant, a thros ddarparu gwasanaeth rhagorol.
• Sgiliau TG rhagorol gan gynnwys Outlook, Word ac Excel.

**Dymunol**

• Gradd mewn pwnc rheoli neu gynllunio digwyddiadau.
• Gwybodaeth am fethodolegau rheoli prosiect.
• Profiad o ddarparu hyfforddiant a mentoriaeth i aelodau'r tîm.
• Cymraeg Ysgrifenedig a Llafar.
• Trwydded Yrru Lawn.